

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Medi 17, 2019 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Meurig Ashton (Is-gadeirydd), W. Barry Jones, Karen G. Goswell a Huw A. Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Mordaf Roberts, Gerallt Griffith, ac Emlyn Roberts.

Yn absenoldeb Peredur Jenkins, (Cadeirydd) cadeirwyd y cyfarfod gan Meurig Ashton (Is-gadeirydd).

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 16, 2019

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 16, 2019

Eitem 5. Eitem 5. Eitem 11.b.2. Mae bin halen Rhedyncochion yn wag.

Eitem 10.b. Galwad ffôn (23/7/2019) oddi wrth gynrychiolydd Mrs Liz Saville Roberts yn gofyn am yr hawl i roi'r stori yn y papur newydd. Rhoddwyd gwybod iddo ddim i wneud hyn, mae angen barn yr aelodau. Roedd yn gofyn hefyd a oedd cwmni teleffon neilltuol dan sylw.

Eitem 10.b. Llythyr ateb (1/8/2019) oddi wrth Mrs Liz Saville Roberts ynglŷn â diffyg gwasanaeth ffôn symudol yn ardal Llanfachreth.

Mae hi angen fwy o wybodaeth:

1. pa gwmni/gwmnïau sydd gennym dan sylw yn yr ardal,
2. cadarnhad os mai diffyg signal ar gyfer galwadau llais sydd yn effeithio ar drigolion Llanfachreth, neu oes diffyg signal ar gyfer data.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 17, 2019

Mae hi'n awgrymu dylem drefnu datganiad i'r wasg fel cam cyntaf i alw ar y cwmni/cwmnïau teleffon i wella'r ddarpariaeth yn Llanfachreth.

Anfonwyd cynwys y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi y cwyn i'r wasg ac i Peredur Jenkins gwneud y trefniadau gyda Mrs Liz Saville Roberts. Nid oedd gwybodaeth ar faterion 1 a 2 uchod.

Llythyr ateb (1/8/2019) oddi wrth Mr Dafydd Elis Thomas. Mae'n rhoi gwybod nid mater i'r Cynulliad yw signal ffôn symudol; mae'n cael ei reoli gan Ofcom. Amgáu mae dogfenau ar wella signal ffôn symudol gan Ofcom; mae ar gael ar www.ofcom.org.uk/cymru.

Anfonwyd cynwys y llythyr i'r aelodau.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/7/2019) oddi wrth Guthrie Jones & Jones yn dweud maent yn disgwyl cytundeb cyfreithiol gan Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â throsglwyddo'r maes parcio.

b. Galwad ffôn (23/7/2019) oddi wrth Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd yn gofyn i ni dorri gwair ar lwybr cyhoeddus rhif 111 o Maes y Cambren i'r ffordd A494. Cyngor Gwynedd bydd yn talu am y gwaith. Rhoddwyd gwybod i Meurig Ashton wneud y gwaith.

c. Llythyr (5/8/2019) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent angen nifer o Gymdeithion Hyfforddiant ychwanegol i gyflwyno modylau hyfforddiant i gynghorwyr. Bydd y tal yn £10 yr awr a chostau teithio o 45 ceiniog y filltir. Os mae diddordeb maent angen CV ac enw dau ganolydd (referee). Maent hefyd angen datganiad 200 gair yn esbonio pam yr hoffent fod yn Gydymaith Hyfforddiant. Dyddiad cau yw Awst 23, 2019.

ch. Llythyr (21/8/2019) oddi wrth Eluned Morgan AC dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Amgáu mae ei chylchlythyr, ar gyfer ei hetholwyr, i'r cynghorwyr.

d. Llythyr (30/8/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol bydd yn cael ei gynnal dydd Sadwrn Hydref 5, 2019 yn Pafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid. Thema cynhadledd bydd 'Rôl Cynghorau Cymuned a Thref i'r Dyfodol'. Amgáu mae:

Agenda Cynhadledd Flynyddol. Amser 9.30yb – 2.15yp. Hannah Blythyn AC prif siaradwr.

Agenda Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Amser 2:15yp – 3.05yp.
Ffurflen gofrestru.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 17, 2019

dd. Llythyr (2/9/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar ddydd Mercher Hydref 16 a ddim Medi 11.

Penderfynwyd i Karen G. Goswell fod yn bresennol yn y cyfarfod.

e. Llythyr (12/9/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith gosod pyst cyfeirbwyntio a thorri tyfiant ar Lwybrau March, Abergeirw.

f. Llythyr (16/9/2019) oddi wrth Mr Rhys Lloyd Evans, Y Bwthyn, Rhydymain. Mae pryderon ynglŷn â chyflymder trafniadaeth ger yr Hen Hufenfa a Phont y Fronwydd ar gefnffordd A494 ac oherwydd hyn mae angen weithredu pellach i gyfyngu cyflymder y drafnidiaeth. Mae angen arwyddion terfyn cyflymder o 40mya a marciau gweledig ar y ffordd. Mae angen cefnogaeth y Cyngor i'r awgrym.

Penderfynwyd cefnogi'r awgrym. Hefyd cefnogwyd llythyrau derbyniwyd gan Peredur Jenkins, a Mr Huw Ifor Huws, Llys Madian ar y mater.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/LB210. Caniatâd Adeilad Rhestredig go gyfer newidiadau mewnol gan newid cynllun cyflwyno a chau agoriadau drysau a pharedau, ychwanegu ystafelloedd ymolchi, ail gyflwyno gwaith addurnedig plaster cilan ystafelloedd llawr uchaf, newid lleoedd tân ac ail agor agoriadau tân wedi ei chau 11 ar y llawr daear ac 8 lle tân llawr uchaf ag ail gyflwyno caadau panelog i'r ffenestri ystafell wely 04. Caerynwch, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/8/2019).

ii. NP5/54/16U. Estyniad i'r bloc toiled presennol. Llwyn-yr-Helm, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/8/2019).

ii. NP5/54/137C. Trosi tŷ gwair agored i annex preswyl gan gynnwys adeiladu ports a veranda. Tir Mab Cynan, Brithdir.

Cefnogwyd y cais gwreiddiol yn cyfarfod Gorffennaf 16, 2019..

Penderfynwyd cefnogi'r cais (23/8/2019).

b. Llythyr (30/8/2019) yn gwahodd cynrychiolwyr o'r Cyngor i gyfarfod blynyddol rhwng y Parc a Chynghorau Cymuned a Thref. Mae cyfarfod yn Plas Tan y Bwlch ar ddydd Mawrth 1/10/2019 am 6.00yh. Maent angen gwybod pwy fydd yn bresennol cyn 20/9/2019.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 17, 2019

c. Derbyniwyd (2/9/2019) dogfen Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 - Map o'r Cynigion a Mapiau Manwl. Hefyd dogfen Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 - Datganiad Ysgrifenedig

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (12/8/2019) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror, 'Cais am Nawdd'.

b. Llythyr (8/8/2019) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopiau o 'Governance and Accountability for Local Councils in Wales: A Practitioners' Guide (2019 Editon)' a 'Guidance on the model financial regulations templates for England and Wales'.

c. Llythyr (13/8/2019) oddi wrth Un Llais Cymru gyda gwybodaeth am newidiadau sydd ei angen i'r Rheoliadau Ariannol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Elfed ap Gomer newid y Rheolau Ariannol sydd ar ein gwefan.

ch. Llythyr (9/8/2019) oddi wrth Small Business Banking, HSBC UK. Maent angen fwy o wybodaeth am y Cyngor. Trefnwyd apwyntiad ffôn i fod ar 22/8/2019. Galwad ffôn (23/8/2019) oddi wrth HSBC yn rhoi gwybod bydd angen rhoi'r wybodaeth ar lein. Llythyr (24/8/2019) oddi wrth HSBC yn dweud bod apwyntiad ffôn i fod ar 29/8/2019 – ni chafwyd galwad ffôn.

Rhodddwyd gwybod iddynt (17/8/2019) bod gwybodaeth y Cyngor ar ein gwefan www.cyngorllanfachreth.cymru

Llythyr (30/8/2019) oddi wrth HSBC yn diolch am y dogfennau anfonwyd iddynt (sydd ar ein gwefan rwy'n cymryd). Maent wedi symud yr archwiliad i ran adolygu.

Llythyr (12/9/2019) oddi wrth HSBC yn rhoi gwybod maent angen apwyntiad. Rhodddwyd gwybod iddynt (13/9/2019) fy mod ar gael unrhyw adeg. Cafwyd wybod (16/9/2019) bydd yr apwyntiad ar 18/9/2019.

d. Llythyr (19/8/2019) oddi wrth BDO. Maent:

1. angen gwybod y rheswm am gostau gweinyddu uwch, costau cynnal y wefan a thaliadau i E.W. Owen.

Rhodddwyd copi manwl o fanylion costau'r Clerc, copi o bil derbyniwyd i gynnal ein gwefan a chopi o bil derbyniwyd gan E.W. Owen.

2. eisiau cadarnad bod hysbysiad o Ymarfer Hawliau Etholwyr ar ein gwefan.

Rhodddwyd gwybod iddynt fod yr hysbysiad ar ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg. (Mae'n ddigon hawdd i'w gael ac mae'n ffodus ei fod dal yno oherwydd daeth diwrnod cau i ben ar 26/7/2019). Mae ar gael hefyd ar

<http://www.cyngorllanfachreth.cymru/index.php/y-cyngor/polisiau/adroddiad-ariannol-blynyddol> (yn Gymraeg) ac

<http://www.cyngorllanfachreth.cymru/index.php/en/the-council/policies/annual-financial-report> (yn Saesneg).

3. Oherwydd mai Jones yw enw'r Archwilydd Mewnol ac yn gyfenw cyffredin, maent angen cadarnhad nid yw'n perthyn i unrhyw un o'n cynghorwyr.

Wedi gwneud ymoliadau gyda Rhun Prys Jones ac W. Barry Jones gadarnhawyd nid yw'r Archwilydd Mewnol yn perthyn i neb yn y Cyngor.

4. Mae dirgelwch rhwng costau staff a thaliadau eraill. Yn ôl adroddiad y Clerc mae costau staff yn £1,636 a thaliadau eraill yn £6,535. Yn ôl Archwilydd Mewnol mae costau staff yn £1,384 a thaliadau eraill yn £6,787. Maent angen gwybod pryn sy'n gywir.

Rhodddwyd gwybod iddynt mai £1,384 yw costau staff a £6,787yw taliadau eraill. Mae hyn oherwydd symudwyd costau y Clerc o Staff i Gweinyddu.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Gorffennaf, 2019: £1,139.32.

e. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf, 2019: £3,369.26.

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Awst, 2019: £1,139.51.

ff. Balans yn y banc ar 29 Awst, 2019: £3,244.82.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Llythyr (10/8/2019) oddi wrth Emlyn Roberts yn rhoi gwybod am gwyn derbyniodd ynglŷn perygl y 'visibility' wrth ymuno'r ffordd A494 o Ysgol Aran Hall oherwydd gordyfiant coed a llwyni ar dir Troedyrhiw. Derbyniwyd yr un cwyn yn ein cyfarfod mis Mehefin.

Anfonwyd y cwyn ymlaen i Peredur Jenkins iddo gysylltu â Swyddog Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i roi gwybod iddo fynd i weld perchennog Troedyrhiw i roi gwybod i'r perchennog mae angen iddo docio ei goed a llwyni. Cytunwyd hyn yn ein cyfarfod mis Mehefin.

Anfonwyd y cwyn ymlaen i Uned Cefnffyrdd.

b. Gweler Eitem 6.f.

10. Unrhyw fater arall

a. Mae angen adolygu ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiaid.

Anfonwyd copi o'r polisiau i'r aelodau.

Penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod nesaf.

b Penderfynwyd rhoi gwybod i Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

1. sgubo ac agor cwteri ar ffordd o Bontnewydd i Rhedyncochion / Esgair Wen.
2. rhoi arwydd 'HERMON' ar y ffordd wrth Ty Min a lleoliad rhwng Cydwgan ac Y Cyplau.

Llofnod:

Dyddiad: